Ymddiriedaeth Caredigrwydd Gobaith

"Gyda'n gilydd i drechu tlodi"

POLISI CLWYDALYN

# Polisi pryderon preswylwyr

IMS/CAS-POL-04c
Fersiwn 1
Cymeradwywyd yn allanol drwy ymgynghori â phreswylwyr, staff, a phartneriaid

Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn fformatau eraill. I wneud cais am fformat gwahanol, cysylltwch â'r tîm rheoli dogfennau hsqe@clwydalyn.co.uk

ClwydAlyn

ClwydAlyn Housing Limited
72 Ffordd William Morgan,
Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy,
Sir Ddinbych, LL17 0JD

ClwydAlyn Housing Limited
72 Ffordd William Morgan,
St Asaph Business Park, St Asaph,
Denbighshire, LL17 0JD

## Ynglŷn â ClwydAlyn

Ein cenhadaeth yw trechu tlodi, ac rydym yn gwneud ein gorau i gefnogi ein preswylwyr i gael gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli.

## Sut rydym yn gweithredu

Ymddiriedaeth  Caredigrwydd  Gobaith

## Cysylltwch â ni

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaeth i Gwsmeriaid | Dydd Llun i ddydd Gwener 08:00 – 18:00 Rhadffôn o linell tir 0800 183 5757 neu 01745 536800 |
| Gwaith trwsio brys y tu allan i oriau | 0300 1233091 neu anfonwch neges destun 07786 202533 (cofiwch gynnwys eich enw, cyfeiriad a rhif ffôn yn eich neges). |
| E-bost/ar-lein | help@clwydalyn.co.uk neu ar-lein @ https://www.myclwydalyn.co.uk/ |
| Cyfeiriad post | 72 Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0JD |

## #Dylanwadwch

Hoffech chi gael cyfle i roi adborth ar y pethau sy'n bwysig i chi fel preswylydd ClwydAlyn? Hoffech chi ein helpu i lunio a gwella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu i chi? Allwch chi sbario munud neu ddau, neu ychydig oriau bob mis? Os felly, dyma eich cyfle i ddod yn Ddylanwadwr gyda ClwydAlyn, felly cliciwch ar ein ffurflen #Dylanwadwch neu anfonwch e-bost atom influenceus@clwydalyn.co.uk

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi ceisio sicrhau bod y ddogfen hon yn gynhwysol i bawb. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu os hoffech gael y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r tîm rheoli dogfennau yn hsqe@clwydalyn.co.uk

## Gwybodaeth am Ddogfennau /Rheoli Dogfennau

Mae'r ddogfen hon yn ddatganiad y cytunwyd arno ac mae'n cynnwys y set o egwyddorion sy'n llywio nodau ClwydAlyn. Y Pwyllgor Sicrwydd neu'r Tîm Rheoli Gweithredol sy'n berchen ar y Polisi hwn ac sydd wedi cytuno arno. Ni ellir newid y ddogfen hon heb ofyn am awdurdod i wneud hynny drwy ddefnyddio'r nodyn awdurdodi newid dogfennau QF-F-10.

Y Rheolwr Dogfennau sy'n cadw'r copi meistr, a chedwir y fersiwn PDF yn SharePoint ClwydAlyn.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r tîm rheoli dogfennau hsqe@clwydalyn.co.uk

## Rhif Cyhoeddi a Hanes Adolygu

| Rhif y Fersiwn | Manylion Adolygu /Rheswm dros newid | Awdur | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| V1 | Mae'r Ddogfen Wreiddiol yn disodli'r Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Cymeradwywyd gan y Pwyllgor Preswylwyr | Brendan McWhinnie | 20/04/2023 |
| | | | |
| | | | |

## Cynnwys

1 Cyflwyniad ..... 3

2 Diben, Nod ac Amcanion ..... 4

2.1 Diben ..... 4
2.2 Nod ..... 4
2.3 Amcan ..... 4

3 Gofynion Rheoleiddio a Deddfwriaeth ..... 5

4 Diffiniad o Bryder Preswyliwr ..... 6

5 Dull ClwydAlyn ..... 7

5.1 Dull ..... 7
5.2 Partneriaid ..... 7
5.3 Safonau Gwasanaeth ..... 8
5.4 Darpariaeth Gwasanaeth ..... 9

6 Atal ..... 9

6.1 Ymyrraeth gynnar ..... 9
6.2 Contractau Meddiannaeth ..... 10
6.3 Cyfiawnder Adferol ..... 10
6.4 Asesu risg ..... 10

7 Tor-Contract Meddiannaeth ..... 11

7.1 Ymyriadau gorfodaeth ..... 11
7.2 Monitro a Pherfformiad ..... 12

8 Adolygu ..... 13

9 Datganiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ..... 13

10 Cyfrifoldeb ..... 14

## 1 Cyflwyniad

Mae’n bwysig bod gwerthoedd ClwydAlyn, sef ymddiriedaeth, caredigrwydd a gobaith, yn cael eu hadlewyrchu’n glir ym mhob agwedd ar ein hymarfer proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys y ffordd rydym yn rhyngweithio â’n preswylwyr, cydweithwyr, a’r cyhoedd yn ogystal â’n dull o ddatrys unrhyw bryderon a gaiff eu codi.

Rydym yn credu fod gan bawb hawl i deimlo’n ddiogel ac yn saff yn eu cartref a’u cymuned eu hun. Mae’n bwysig i ni fod preswylwyr yn teimlo’n hyderus y bydd ClwydAlyn yn ymateb yn gyflym i unrhyw bryderon a gaiff eu codi mewn ffordd brydlon, broffesiynol ac ystyriol. Yn anffodus, efallai bydd cymunedau, preswylwyr a’r cyhoedd yn wynebu ymddygiad negyddol gan unigolyn/unigolion a bydd hyn yn cael effaith andwyol ar eu hansawdd bywyd. Ar yr adegau hyn, mae’n hanfodol bod ClwydAlyn, ynghyd ag asiantaethau partneriaeth, yn cydweithio i ganfod gwraidd y broblem.

Mae anghenion ein preswylwyr yn cael lle blaenllaw ym mhopeth rydym yn ei wneud ac mae’r ffordd rydym yn gweithredu yn canolbwyntio ar fynd i’r afael â phryderon preswylwyr mewn dull cyfannol, gan gydbwyso ymyriadau a gorfodaeth â gwaith ataliol a rhoi cymorth i unigolion sy’n wynebu anawsterau.

Pan fyddwn yn gweithio gyda’n preswylwyr, a phobl sy’n byw yn y cymunedau lle rydym yn gweithredu, byddwn yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn teilwra ein hymatebion i ateb anghenion y bobl dan sylw, gan reoli’n effeithiol i gael canlyniadau cadarnhaol.

Bydd ymyrraeth gynnar ar y cyd â gweithio’n effeithiol mewn partneriaeth yn allweddol er mwyn mynd i’r afael ag ymddygiad sy’n achosi problemau. Bydd hyn yn atal y problemau rhag ailgodi ac yn dod o hyd i atebion tymor hir i amddiffyn preswylwyr.

Fel arfer, ni fyddwn yn defnyddio camau gorfodaeth cyfreithiol nes i ni roi cynnig ar ddewisiadau eraill i ddatrys y pryder. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd mae’r amgylchiadau yn cyfiawnhau cymryd camau cyfreithiol ar unwaith neu’n fuan.

Mae’n bwysig nodi bod hon yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu yn ôl yr angen. Rydym yn ystyried y broses pryderon preswylwyr yn brofiad dysgu ac, o ganlyniad, byddwn yn parhau i addasu a newid y polisi hwn i adlewyrchu arfer gorau.

# 2 Diben, Nod ac Amcanion

## 2.1 Diben

Diben y polisi hwn yw amlinellu ymrwymiad a dull ClwydAlyn o ddatrys pryderon yn ymwneud ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, y cyfeirir atynt drwyddi draw yn y Ddogfen fel Pryderon Preswylwyr. Mae'r polisi yn gymwys i'n holl breswylwyr a'u cymunedau ac mae'n cyd-fynd â'n arweiniad i bryderon preswylwyr.

## 2.2 Nod

Nod y polisi hwn yw cyflwyno dull cyfannol o ddatrys pryderon preswylwyr. Bydd y pwyslais ar ymyrraeth gynnar a chydbwyso camau gorfodaeth â chamau ataliol i sicrhau bod y camau a gymerir yn deg ac yn gymesur. Bydd ClwydAlyn yn gweithio ag asiantaethau partneriaeth er mwyn parhau i gynnig cefnogaeth a chymorth fel bod preswylwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn saff yn eu cartrefi.

Ein nod fydd cefnogi cymunedau i fod yn lleoedd diogel, cydlynus a braf i fyw.

## 2.3 Amcan

Er mwyn rheoli a datrys pryderon preswylwyr yn effeithiol, bydd ClwydAlyn yn gwneud y canlynol:

- Darparu diffiniad clir o bryderon preswylwyr.
- Amlinellu rolau a chyfrifoldebau swyddogion sy'n ymateb i bryderon preswylwyr.
- Sicrhau bod camau ymyrraeth ac ataliol cynnar yn flaenllaw wrth i ni weithredu.
- Mabwysiadu dull cadarn, teg a chymesur i ymdrin ag unrhyw bryderon sydd wedi'u codi.
- Cefnogi, grymuso a rhoi sicrwydd i breswylwyr sy'n codi pryderon ac unrhyw un arall yr effeithiwyd arno.
- Gweithio'n ddwys gyda'r unigolion sy'n achosi'r pryderon a godwyd i fynd i'r afael â gwraidd y broblem.
- Teilwra cymorth er mwyn ysgogi unigolion i newid eu hymddygiad problemus.

- Defnyddio adnoddau gorfodaeth yn briodol yn unol â deddfwriaeth yn ôl yr angen.
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol i roi sylw i bryderon, eu hadolygu a'u monitro.
- Galluogi Swyddogion i ddod i benderfyniadau a defnyddio ymyriadau addas er mwyn cefnogi ein dull o ymdrin â phryderon preswylwyr.
- Annog Swyddogion i ddefnyddio arfer gorau wrth ddysgu a rhannu gwybodaeth i ddatblygu ethos dysgu a gwella parhaus.
- Adolygu'n feirniadol ein gweithredoedd a bodlonrwydd preswylwyr yn ystod yr achos a chyn dod ag achos i ben.

## 3 Gofynion Rheoleiddio a Deddfwriaeth

Bydd ClwydAlyn yn glynu at ganllawiau a gofynion rheoleiddio Llywodraeth Cymru a Deddfwriaeth Tai statudol a deddfwriaethol perthnasol sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

Deddf Coronafirws 2020.

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

Deddf Diogelu Data 2018.

Deddf Cydraddoldeb 2010.

Deddf Hawliau Dynol 1998.

Safonau Cymdogaethau a Chymunedau 2012.

Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018.

Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021.

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Safon Rheoli Tai Cymru ar gyfer Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

## 4 Diffiniad o Bryder Preswyliwr

*'Unrhyw ddigwyddiad neu ymddygiad parhaus sy'n effeithio ar ddiogelwch a lles preswyliwr neu aelodau'r teulu yn eu cartref eu hunain neu yn agos iawn i'w cartref.'*

Mae'r diffiniad uchod yn diffinio'r hyn y byddwn ni'n ei ystyried yn Bryder Preswyliwr ac yn ymateb iddo yn unol â'r polisi hwn a gall gynnwys y canlynol:

- Cam-drin domestig
- Cyflenwi cyffuriau
- Camfanteisio
- Niwsans gerddi
- Graffiti/difrod i ardaloedd cymunedol
- Aflonyddu
- Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chasineb
- Celcio sbwriel
- Sbwriel/tipio anghyfreithlon
- Troseddau cyfeillio
- Camddefnyddio ardaloedd cymunedol, man cyhoeddus neu sefyllian.
- Niwsans sŵn
- Niwsans gan gerbydau
- Anifeiliaid anwes a niwsans anifeiliaid
- Trais corfforol
- Rhedeg busnes o eiddo
- Fandaliaeth a difrod i eiddo

Nid yw'r rhestr hon yn ddiffiniedig gan fod risg yn newid yn gyson ac yn amodol ar amgylchiadau unigol.

Gall preswylwyr godi pryderon nad ydynt yn cyd-fynd â'r diffiniad swyddogol o 'Bryder Preswyliwr' o dan y polisi hwn. Efallai bydd unigolion yn rhoi gwybod am fathau penodol o ymddygiad maent yn eu hystyried yn bryder; fodd bynnag, ar ôl casglu gwybodaeth, gall Swyddogion ddod i'r casgliad nad yw'r ymddygiad dan sylw yn 'Bryder Preswyliwr' a'i fod yn enghraifft resymol o fywyd bob dydd, fel plant yn chwarae, achos unigryw o bobl yn ymgynnull, cypyrddau yn cau, toiled yn cael ei fflyshio.

Ym mhob achos, bydd preswylwyr yn cael gwybod a chafodd Pryder Preswyliwr ei godi.

# 5 Dull ClwydAlyn

## 5.1 Dull

Bydd dau ddull yn gysylltiedig â rheoli pryder preswyliwr:

Ar y cyfan bydd achosion bob amser yn cael eu rheoli yn y lle cyntaf ar lefel Swyddog gyda goruchwyliaeth briodol Rheolwyr y Tîm/Cynllun. Bydd Rheolwyr yn cynorthwyo Swyddogion i asesu achos yn y lle cyntaf. Byddant yn gyfrifol am adolygu camau gweithredu ac yn gwneud argymhellion pellach ar achosion bob 4 wythnos.

Mewn sefyllfaoedd lle ceir tystiolaeth o risg uchel i unigolyn a/neu bobl eraill, neu lle mae ymyriadau cefnogol a chynnar wedi methu datrys y pryderon a godwyd, bydd achosion yn cael eu huwchgyfeirio drwy'r Rheolwr perthnasol i Swyddog Ymyrraeth Arbenigol y Grŵp. Bydd y Swyddog Ymyrraeth Arbenigol yn arwain ar bob achos lle mae camau gorfodaeth cyfreithiol yn ofynnol, mewn achosion cymhleth iawn, lle mae risg difrifol o niwed a phan mae angen ymateb amlasiantaeth lefel uwch.

Bydd y Swyddog Ymyrraeth Arbenigol yn arwain ar roi arfer gorau ar waith hefyd, fel cyfiawnder adferol, gweithio gyda chymorth i deuluoedd a gwasanaethau iechyd meddwl, a bydd yn gyfrifol am ddatblygu a hybu ein strategaethau ymyrraeth gydag asiantaethau proffesiynol, rhanddeiliaid busnes a chodi ymwybyddiaeth ym mhob un o feysydd adrannol ClwydAlyn.

## 5.2 Partneriaid

Bydd ClwydAlyn yn gweithio gyda'i bartneriaid statudol a gwirfoddol ar draws pob maes gweithrediad er mwyn ceisio datrys y pryderon a godwyd a phan fydd yn rhaid troi rhywun allan, bydd yn atal pob achos o'r fath rhag troi'n sefyllfa o ddigartrefedd. Dyma fydd ein blaenoriaeth bob amser.

Bydd ein timau gweithredol yn cael eu hannog i ddefnyddio cyfres o ymyriadau ac ymgysylltu â phartneriaid lle bynnag y bo'n bosibl i ddatrys ac atal pryderon preswylwyr rhag cael eu huwchgyfeirio. Byddwn yn ceisio rhoi arfer gorau ar waith at y diben hwn gan wreiddio ethos dysgu a gweithredu ymhlith ein gweithwyr.

## 5.3 Safonau Gwasanaeth

- Caiff holl bryderon preswylwyr eu trin yn ddifrifol ac yn deg, gan osgoi rhagdybiaethau ac anghysondeb.
- Cynhelir asesiad risg ar gyfer pob achos i nodi unrhyw niwed uniongyrchol posibl i eraill.
- Bydd cynllun gweithredu a chymorth hefyd yn cael ei lunio ar gyfer achosion risg uchel.
- Os yw'r pryder yn ymwneud â mater na all ClwydAlyn gynorthwyo ag ef, bydd yr unigolyn sydd wedi codi'r pryder yn cael ei gynghori ar y cam cynharaf a'i gyfeirio at wasanaethau a allai fod o gymorth. Bydd ClwydAlyn yn sicrhau bod cymorth parhaus yn cael ei ddarparu gan aelod staff priodol tra bod parti arall yn ymchwilio i'r mater.
- Bydd yr holl unigolion a enwir fel rhan o bryder y preswyliwr yn cael cyfle i roi eu sylwadau a'u barn.
- Fel rhan o'r broses, bydd y rhai sy'n codi pryder yn cael eu cynghori y bydd manylion yn ymwneud â'r pryder bob amser yn cael eu trafod â'r parti arall, oni bai fod yr unigolyn sy'n codi'r pryder wedi datgan nad yw'n dymuno i hyn ddigwydd.

Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn bob amser yn sicrhau bod yr unigolyn sydd wedi codi'r pryder yn aros yn anhysbys. Fodd bynnag, gall hyn effeithio ar y camau y gall ClwydAlyn eu cymryd, yn ogystal ag effeithiolrwydd unrhyw gamau, a'r canlyniad.

Bydd y sawl sy'n codi'r pryder yn cael gwybod am y posibiliadau hyn os yw'n dymuno aros yn anhysbys.

Un enghraifft o hyn fyddai anghydfod lefel isel rhwng cymdogion, oherwydd mewn achosion o'r fath gall fod o gymorth i'r partïon ymwneud â'i gilydd a datrys y sefyllfa gyda chytundeb a dealltwriaeth y bobl sy'n gysylltiedig.

Os bydd yr achwynydd yn aros yn anhysbys, gall hyn gyfyngu ar y gallu i ganfod achos y pryder ac ar y math o ymyriadau y gellir eu rhoi ar waith i roi sylw i'r mater.

Byddwn yn ymgysylltu â thystion trydydd partïon ac yn cysylltu ag asiantaethau allanol lle bo'r angen. Byddwn yn cysylltu'n rheolaidd â'r holl bartïon i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr achos iddynt, ynghyd â manylion canlyniadau ac ymyriadau cymorth a fydd yn cael eu rhoi ar waith.

Mewn achosion yn ymwneud â cham-drin domestig, ymdrinnir â chwynion o'r fath mewn ffordd gefnogol a chydymdeimladol. Byddwn yn gweithio gydag asiantaethau cymorth i sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn cymorth mewn amgylchedd diogel. Gall hyn gynnwys darparu llety â chymorth o fath arall, drwy Cymorth i Fenywod neu asiantaeth gymorth allanol broffesiynol arall.

### 5.4 Darpariaeth Gwasanaeth

Bydd ClwydAlyn yn ymateb i unrhyw bryder a gaiff ei godi gan bob parti, ac nid preswylwyr ClwydAlyn yn unig.

Bydd preswylwyr yn cael gwybod beth yw eu hawliau ac yn derbyn cymorth ac anogaeth i roi gwybod am bryder. Gall hyn ddigwydd mewn sawl ffordd.

Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Porth ClwydAlyn.
- Ffonio ein Canolfan Gwasanaeth i Gwsmeriaid.
- Cofnodi gwybodaeth ar daflenni dyddiaduron.
- E-bostio Swyddog Tai, aelod staff neu'r ganolfan gyswllt drwy ein gwefan.
- Wyneb yn wyneb mewn swyddfa leol.
- Yn ystod ymweliad â'r cartref.

Bydd yr wybodaeth a dderbynnir yn cael ei chofnodi ac yn unol â Pholisi Diogelu Data ClwydAlyn. Bydd y sawl sy'n mynegi pryder yn cael gwybod am statws ei achos. Mae hyn yn cynnwys cael ei gyfeirio at wasanaeth arall priodol os nad yw'r pryder yn ymwneud yn uniongyrchol â ClwydAlyn.

## 6 Atal

### 6.1 Ymyrraeth Gynnar

Trwy ddarparu rhagor o wasanaethau yn y gymuned, gall ClwydAlyn fuddsoddi rhagor o amser i gynorthwyo preswylwyr, fel y gall ymateb i unrhyw anghenion nad ydynt wedi'u hateb a allai gyfrannu at rywun yn codi pryder.

Mae ymyrraeth gynnar ac ymateb yn fuan i bryderon yn allweddol er mwyn datrys problemau yn gyflym ac mor gyfeillgar â phosibl. Mae gan ClwydAlyn sawl rôl ar draws y Sefydliad a fyddai'n gallu cefnogi

Preswylwyr sydd â phryderon yn y cam cynnar hwn, gall y rhain gynnwys:

- Swyddogion Ymyrraeth Gynnar
- Swyddogion Hawliau Lles
- Gweithwyr Prosiect
- Swyddogion Cymorth Tenantiaethau
- Gweithwyr Cynlluniau

Gall y swyddi hyn gynnig cymorth cyn dechrau tenantiaeth a chymorth parhaus yn ystod y denantiaeth a all hefyd gynnwys cyfeirio preswylwyr at asiantaethau allanol, fel camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, a'r ganolfan waith.

## 6.2 Contractau Meddiannaeth

Mae Contractau Meddiannaeth ClwydAlyn yn amlinellu'n glir y disgwyliadau o ran ymddygiad Preswylwyr. Mae hyn yn cynnwys dal preswylwyr i gyfrif am eu gweithredoedd eu hunain, aelodau eu haelwyd, eu hanifeiliaid anwes, ac unrhyw bobl sy'n ymweld â'u heiddo neu gerllaw eu heiddo.

Bydd swyddogion yn monitro cydymffurfiaeth â'r Contract Meddiannaeth ac yn atgoffa unigolion pan fo'r angen o'u cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau fel Deiliaid Contract ClwydAlyn.

## 6.3 Cyfiawnder Adferol

Mae ClwydAlyn wedi mabwysiadu'r mesur Rhwymedi Cymdeithasol a argymhellir yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Lle bo'n bosibl, byddwn yn ystyried dulliau adferol, gan ystyried dymuniadau'r preswylwyr ac yn atgyfeirio lle bo'r angen. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyfryngu.
- Llythyr ymddiheuriad.
- Cynnig gwneud iawn.
- Datganiadau effaith.
- Datrysiad cymunedol.

## 6.4 Asesu risg

Rhoddir ystyriaeth ddifrifol i'r holl bryderon a gaiff eu codi. Bydd yr holl risgiau posibl yn cael eu hasesu gan gynnwys lles, diogelwch a llesiant pawb sy'n gysylltiedig. Byddwn yn sicrhau bod anghenion pob parti sydd

ynghlwm â'r pryder yn cael eu hasesu a'u hadolygu yn rheolaidd fel bod cymorth yn cael ei deilwra i anghenion yr unigolyn a'r teulu. Caiff hyn ei gyflawni drwy gynnal asesiad risg ar gyfer y ddau barti.

Ar ôl cynnal yr asesiadau, bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i gynnwys amcanion ac amserlenni, ynghyd â dull ac amlder y cyswllt â'r preswylwyr. Bydd Rheolwyr yn adolygu'r holl achosion bob pedair wythnos.

Yn ogystal â hyn, lle bo'r angen, bydd mesurau amddiffynnol, gan gynnwys Gwaharddebau ac atgyfeiriadau, yn cael eu rhoi yn eu lle i ddiogelu unigolion. Ymhlith enghreifftiau o brosesau atgyfeirio ymlaen y gellir eu gwneud mewn perthynas â diogelu mae:

- Hwb Ymyrraeth Gynnar
- Gwasanaethau i Oedolion a Phlant
- Yr Heddlu
- Gwella Diogelwch
- Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)
- Asesiad Risg Oedolion Agored i  Niwed (VARM)

# 7 Tor-Contract Meddiannaeth

## 7.1 Ymyriadau Gorfodaeth

Os oes tystiolaeth glir o dor-contract Meddiannaeth ac mae ymyriadau lleol wedi methu mynd i'r afael â phryderon, yna gyda chymorth ein partneriaid amlasiantaeth gall camau gorfodaeth pellach gael eu cymryd yn unol ag amodau'r Contract Meddiannaeth.

Ein nod fydd ymdrin â phryderon preswylwyr mewn ffordd gefnogol, gydymdeimladol a chyson, ond lle bo'r angen, byddwn yn cymryd camau gorfodaeth yn erbyn y rhai nad ydynt yn gallu newid eu hymddygiad neu sy'n amharod i wneud hynny.

Bydd y camau a gymerir yn rhesymol ac yn gymesur, ac yn cyd-fynd â'n cred bod gan bawb hawl i gartref.

Gall camau heb fod yn gyfreithiol gynnwys un neu ragor o'r canlynol:

- Rhybuddion – Llafar ac ysgrifenedig gan gynnwys rhybudd ffurfiol a therfynol.
- Ymweliad ar y cyd ag asiantaethau allanol, fel y cyngor a/neu'r Heddlu.
- Cytundebau Pryderon Preswylwyr.

- Hysbysiad Ceisio Meddiant.

Yn yr achosion hynny lle cafodd unrhyw un o'r camau uchod eu cymryd, ond mae'r pryderon yn parhau neu mae'r risg wedi cynyddu, bydd camau cyfreithiol ffurfiol yn cael eu hystyried, a lle bo'r angen, yn cael eu rhoi ar waith. Mewn achosion difrifol sy'n cynnwys, er enghraifft, trais, risg o drais neu ddifrod i eiddo, efallai bydd angen rhoi camau cyfreithiol ar waith ar unwaith. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Gwaharddeb Sifil.
- Achos Meddiant.

At hyn, byddwn hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cefnogi asiantaethau eraill i gymryd camau cyfreithiol er mwyn rhoi:

- Hysbysiad Gwarchod y Gymuned.
- Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus.
- Gorchymyn Cau llawn neu rannol.

Dylid nodi hefyd y bydd preswylwyr yn cael eu dal yn atebol am unrhyw ddifrod bwriadol i'w cartref, eiddo cymydog neu ardaloedd cymunedol a reolir gan ClwydAlyn ac y codir tâl arnynt am gost y difrod a achoswyd.

O ran unigolion nad ydynt yn breswylwyr sy'n achosi difrod i eiddo ClwydAlyn, byddwn yn cwyno i'r Heddlu. Os bydd hyn yn arwain at euogfarn yn ymwneud â'r difrod troseddol, bydd ClwydAlyn yn ceisio adennill y gost drwy hawlio iawndal.

## 7.2 Monitro a Pherfformiad

Byddwn yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i ddatrys pryderon preswylwyr ac yn parhau i fabwysiadu arfer gorau ym mhopeth rydym yn ei wneud. Os oes bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth neu feysydd y gellir eu gwella, bydd cynlluniau gweithredu yn cael eu llunio i wella ein darpariaeth gwasanaeth.

Bydd preswylwyr yn cael eu cynnwys yn y broses adolygu ac yn cael gwybod am unrhyw gamau a gymerwyd.

Bydd y rheolwyr yn goruchwylio'r holl achosion a byddant yn adolygu'r achosion bob pedair wythnos.

Pan fydd achosion yn agored i ymyrraeth arbenigol, byddant yn cael eu hadolygu bob 4 wythnos gan Swyddogion a Rheolwyr sy'n gyfrifol am yr ardal honno. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl bartïon sy'n gysylltiedig yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr achos ac yn cael gwybod am unrhyw gynnydd.

Byddwn yn adolygu ein lefelau bodlonrwydd yn ystod yr achos ac ar ôl ei gau er mwyn gwella ein dysgu a lle bydd meysydd i'w gwella yn dod i'r amlwg, byddwn yn rhoi newidiadau o'r fath ar waith a'u cynnwys ar draws ein holl wasanaethau.

Byddwn yn anelu at arwain yn lleol ac yn genedlaethol i ddatblygu mentrau diogelwch cymunedol a llesiant amrywiol a dynamig sy'n gwella bywydau'r bobl sy'n byw yn y cymunedau lle rydym yn gweithredu.

Byddwn yn hybu ethos dysgu a chynhwysiant ar gyfer pawb yn ClwydAlyn ar fater pryderon preswylwyr – bydd pawb yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth a chyfrannu at y broses.

## 8 Adolygu

Dogfen fyw yw hon a bydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru wrth i ni barhau i ddatblygu'r broses pryderon preswylwyr. Cynhelir adolygiad llawn o'r polisi bob 3 blynedd.

## 9 Datganiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Byddwn yn ymdrin yn sensitif â'r unigolion sy'n rhan o'r broses pryderon preswylwyr; y rhai sy'n codi'r pryder, y rhai sy'n destun y pryder a godwyd, a'r rhai mae'r pryder yn effeithio arnynt.

Byddwn yn sicrhau bod ein Swyddogion ar gael i bawb sy'n rhan o'r broses hon. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cysylltu â'r rhai sy'n gysylltiedig gan ddefnyddio eu dull cyfathrebu o ddewis.

Byddwn yn cysylltu â gwasanaethau cymorth statudol ac asiantaethau perthnasol eraill i roi cymorth i'r rhai sy'n gysylltiedig â'r broses pryderon preswylwyr.

Byddwn yn darparu gwybodaeth i'r rhai sy'n gysylltiedig, yn Gymraeg a/neu Saesneg a byddwn yn defnyddio cyfieithydd/dehonglydd neu wasanaeth cyfieithu/dehongli os oes angen. Byddwn hefyd yn defnyddio dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydeinig ac yn darparu dogfennau mewn print mawr os oes angen.

Cynhelir Asesiad llawn o'r Effaith ar Anghydraddoleb yn ystod y 12 mis cyntaf pan gaiff y polisi hwn ei roi ar waith.

## 10 Cyfrifoldeb

Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Tai sy’n gyfrifol am roi’r polisi hwn ar waith yn effeithiol.